


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Anabledd Dysgu

## Rhaglen Gwella Bywydau

Mehefin 2018

**Mae hon yn fersiwn Hawdd ei Deall o'r adroddiad Gwella Bywydau**

OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG32156

# Anabledd Dysgu: Rhaglen Gwella Bywydau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mae'r adroddiad hwn wedi ei ysgrifennu gan Lywodraeth Cymru.



Mae'r adroddiad yn edrych ar fywydau pobl ag Anableddau Dysgu yng Nghymru.



Mae'r holl **argymhellion** yn yr adroddiad wedi eu cytuno gan Weinidogion Cymru.

**Argymhelliad** yn yr adroddiad yw cam a ddylai gael ei gymryd, yn ein barn ni, er mwyn gwneud bywydau pobl ag anableddau dysgu yn well.

## Beth oedd yn digwydd o’r blaen?



30 mlynedd yn ôl roedd llawer o bobl ag anableddau dysgu yn byw mewn ysbytai mawr.



Sylweddolodd y Llywodraeth nad oedd angen i bobl fod yn yr ysbyty oni bai eu bod nhw’n sâl.



Caeodd y Llywodraeth yr ysbytai mawr hyn a symudodd y bobl i fyw mewn tai cyffredin.



Roedd hyn yn beth da iawn i lawer o bobl ag anableddau dysgu.

## Beth sydd wedi digwydd ers hynny?




Mae 10 mlynedd ers i'r Llywodraeth edrych ar anghenion pobl ag anableddau dysgu.



Ers hynny mae llawer o bethau da wedi digwydd.



Mae rhai problemau wedi bod hefyd, fel



- Mae pobl ag anableddau dysgu wedi marw yn yr ysbyty pan allen nhw fod wedi cael eu gwella.



- Mae pobl wedi cael eu brifo gan y gofalwyr a ddylai fod yn eu helpu nhw.

## Pa waith ydym ni wedi ei wneud?




Gofynnodd rhai o Weinidogion Llywodraeth Cymru am ddarn newydd o waith i gael gwybod beth sy'n digwydd nawr.



Fe wnaethom ni ofyn i bobl beth ddylem ni ei wneud i wella bywydau pobl ag anableddau dysgu.



Rydym ni wedi dysgu beth sy'n gweithio'n dda.



A beth sydd angen gweithio'n well.

## Rydym ni wedi siarad â llawer o bobl



Rydym ni wedi siarad â mwy na 2000 o bobl.

Roedd hyn yn cynnwys



- Pobl ag anableddau dysgu



- Teuluoedd a gofalwyr



- Awdurdodau Lleol a Byrddau Iechyd sy’n gwneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu yn derbyn y gwasanaethau iawn



- Staff sy’n cefnogi pobl ag anableddau dysgu



- Gweithwyr iechyd sy’n gofalu am bobl ag anableddau dysgu pan fyddan nhw’n sâl.

## Yr Adroddiad



Rydym ni wedi gwrando ar yr hyn a ddywedodd pobl wrthym ni.



Rydym ni wedi cael gwybod beth arall sy’n cael ei wneud ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yn y DU.




Rydym ni wedi edrych ar y deddfau a’r rheolau sy’n effeithio ar bobl yng Nghymru.




Rydym ni wedi ysgrifennu adroddiad achos bod pobl wedi dweud wrthym ni fod angen i ni gymryd camau er mwyn helpu i wella bywydau.



Rydym ni’n meddwl ei bod yn bosibl cyflawni’r pethau hyn drwy wneud rhai newidiadau i’r ffordd y mae gwasanaethau yn gweithio.
Dyma’r **Argymhellion**.

# Argymhellion

Dwedodd pobl wrthym ni fod angen i ni gymryd camau i wella'r pethau canlynol ar gyfer pobl ag anableddau dysgu



- Byw yn y lle iawn




- Bod yn iach ac yn hapus



- Cael y gofal a'r cymorth iawn



- Cael plentyndod hapus



- Dysgu sgiliau a chael swydd

## Argymhellion



Yn ogystal â'r 5 maes newid allweddol, mae 3 argymhelliad ar wahân y byddem ni'n hoffi eu gwneud.

Bydd y newidiadau hyn yn gwella pob rhan o fywydau pobl ag anableddau dysgu.



- Gwybod faint o bobl sydd ag anableddau dysgu a beth yw eu hanghenion. Bydd hyn yn helpu gwasanaethau i gynllunio'n well.



- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau yn meddwl am bobl ag anableddau dysgu ac yn gwrando arnyn nhw a'u teuluoedd.




- Gwneud yn siŵr bod gwasanaethau cludiant yn hawdd i bobl ag anableddau dysgu eu defnyddio.



## Cael plentyndod hapus

Mae angen i ni



- Ystyried beth y gallwn ni ei wneud i helpu plant i deimlo’n ddiogel a bod rhywun yn gofalu amdanyn nhw.



- Helpu rhieni a gofalwyr i fynd i’r gwaith drwy gael gwybod a oes lleoedd gofal plant ar gael i blant ag anableddau dysgu.



- Helpu pobl ag anableddau dysgu i fod yn rhieni da os byddan nhw’n dewis cael plant.



## Byw yn y lle iawn

Mae angen i ni



- Adeiladu mwy o gartrefi i bobl ag anableddau dysgu er mwyn cynnig mwy o ddewisiadau iddyn nhw ynghylch ble i fyw.



- Gwneud yn siŵr bod pobl yn byw yn agos at eu teuluoedd a'u ffrindiau.



- Gwneud yn siŵr nad yw pobl ag anableddau dysgu yn ddigartref.



## Cael y gofal a'r cymorth iawn

Mae angen i ni




- Wneud yn siŵr bod gan bawb gynllun gofal a chymorth sy'n eu helpu nhw i fyw'r bywyd y maen nhw ei eisiau.



- Gwneud yn siŵr bod pawb yn cael gofal da iawn pan fydd angen gofal arnyn nhw.



- Gwneud yn siŵr bod gweithwyr cymorth a gofalwyr yn cael hyfforddiant da a'u bod yn rhoi cymorth da iawn.



## Bod yn iach ac yn hapus

Mae angen i ni



- Wneud yn siŵr bod pobl ag anableddau dysgu yn cael prawf iechyd bob blwyddyn.



- Helpu staff ysbytai i wybod sut i ofalu am bobl ag anableddau dysgu.



- Helpu pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n eu gwneud yn hapus.



## Dysgu sgiliau a chael swydd

Mae angen i ni



- Wneud yn siŵr bod pobl yn gweithio gydag ysgolion sy’n deall anghenion pobl ag anableddau dysgu.



- Gwneud yn siŵr pan fydd rhywun yn dod yn oedolyn ei fod yn cael y cymorth sydd ei angen arno i gael bywyd da.



- Gwneud yn siŵr bod mwy o bobl ag anableddau dysgu yn cael swyddi â thâl.

## Beth fydd yn digwydd nesaf?




Rydym ni’n mynd i weithio gyda llawer o grwpiau i ddechrau gweithio ar y camau hyn.



Byddwn ni’n gweithio gyda’r Grŵp Gweinidogol Ymgynghorol ar Anabledd Dysgu i wneud yn siŵr bod y gwaith hwn yn digwydd.



Byddwn ni’n parhau i ofyn i bobl beth sydd angen ei wella a sut y gallan nhw helpu i newid pethau.